



# Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

2019 dccc 4

## RHAN 2

### DEHONGLI A GWEITHREDU DEDDFWRIAETH CYMRU

#### *Pwerau a dyletswyddau*

#### **17 Cynnwys darpariaethau machlud a darpariaethau adolygu mewn is-ddeddfwriaeth**

- (1) Caniateir arfer pŵer neu ddyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth a roddir neu a osodir gan [<sup>F1</sup>Ddeddf gan Senedd Cymru] fel bod yr is-ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaeth adolygu neu ddarpariaeth fachlud (neu'r ddwy).
- (2) Yn yr adran hon—
  - (a) ystyr “darpariaeth adolygu” yw darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person a wnaeth yr is-ddeddfwriaeth adolygu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth honno, neu effeithiolrwydd unrhyw is-offeryn Cymreig y mae'n ei ddiwygio, o fewn cyfnod penodedig neu ar ddiwedd cyfnod penodedig;
  - (b) ystyr “darpariaeth fachlud” yw darpariaeth i'r is-ddeddfwriaeth, neu unrhyw is-offeryn Cymreig y mae'n ei ddiwygio, beidio â chael effaith ar ddiwedd diwrnod penodedig neu gyfnod penodedig;
  - (c) ystyr “penodedig” yw wedi ei bennu yn yr is-ddeddfwriaeth.
- (3) Caiff darpariaeth adolygu, ymhlith pethau eraill, wneud adolygiad yn ofynnol i ystyried a yw amcanion yr is-ddeddfwriaeth y mae'n gymwys iddi yn dal i fod yn briodol ac, os felly, a ellid eu cyflawni mewn ffordd arall.
- (4) Caiff yr is-ddeddfwriaeth sy'n cynnwys y ddarpariaeth adolygu neu'r ddarpariaeth fachlud ddarparu i'r ddarpariaeth fod yn gymwys yn gyffredinol neu'n unig mewn perthynas â darpariaethau penodedig yr is-ddeddfwriaeth neu achosion neu amgylchiadau penodedig.
- (5) Caniateir arfer y pŵer i wneud y ddarpariaeth adolygu neu'r ddarpariaeth fachlud i wneud darpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth ganlyniadol,

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn  
hysbys ar gyfer y Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, Adran 17. (See end of Document for details)*

darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad  
â'r ddarpariaeth adolygu neu'r ddarpariaeth fachlud.

#### Diwygiadau Testunol

- F1** Geiriau yn [Deddf](#) wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan [Deddf Senedd ac Etholiadau \(Cymru\) 2020](#) (anaw  
1), a. 42(2), [Atod. 1 para. 5\(8\)](#)

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I1** A. 17 mewn grym ar 11.9.2019 at ddibenion penodedig, gweler [a. 44\(1\)\(c\)](#)  
**I2** [A. 17](#) mewn grym ar 1.1.2020 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan [O.S. 2019/1333](#), [erogl. 2](#)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, Adran 17.